

Datganiad i'r wasg

9.11.2022

David Olusoga, Gynhyrchydd Gweithredol StoryTrails yn cyflwyno rhaglen o'r enw *The People's Piazza, A History of Covent Garden*, i'w darlledu ar BBC2 ddydd Sul 13 Tachwedd

Bydd yr hanesydd, y cyflwynydd teledu a Chynhyrchydd Gweithredol StoryTrails, David Olusoga yn cyflwyno ffilm ddogfen i gyd-fynd â StoryTrails, sef *The People's Piazza, A History of Covent Garden*, fydd yn cael ei darlledu ar BBC Two ddydd Sul 13 Tachwedd am 9pm yn dilyn dangosiad cyntaf y ffilm yng Ngŵyl Ffilm BFI Llundain ym mis Hydref fel rhan o raglen LFF For Free. Mae StoryTrails, profiad storiol ymgolli mwyaf y DU, wedi bod yn teithio ledled y DU dros yr haf, o Omagh i Dundee ac o Abertawe i Slough. Bydd StoryTrails a gomisiynwyd yn rhan o UNBOXED: Creadigrwydd yn y DU yn adrodd cannoedd o straeon lleol a hanesion cudd gan ddefnyddio technolegau rhyngweithiol newydd cyffrous.

Gan adrodd hanes un o fannau cyhoeddus mwyaf adnabyddus Lloegr, Piazza Covent Garden, o'i flynyddoedd cynnar fel maes chwarae i'r bonedd, dirywio i fod yn adfail ac yna ei adfer, bydd yr hanesydd, y cyflwynydd teledu a Chynhyrchydd Gweithredol StoryTrails, David Olusoga yn camu'n ôl mewn amser i archwilio hanes tymhestlog eiconig y piazza. Dros bedair canrif mae Piazza Covent Garden wedi bod yn farchnad, yn fan cyfarfod, ac yn safle protest, perfformiad ac adnewyddu. Yn y rhaglen ddogfen hon mae David Olusoga yn archwilio ei hanes, a gyda chymorth llw o arbenigwyr a llygad-dystion, yn cyfleu ysbrydion y gorffennol – masnachwyr marchnad, plant amddifad, artistiaid ac ymgyrchwyr.

Cyd-gynhyrchwyd y ffilm gan StoryFutures Academy, y ganolfan genedlaethol dros adrodd straeon ymgolli, y tîm y tu ôl i StoryTrails a'r BFI, ac mae'n cyfuno llawer o ffilmiau archif, gan gynnwys *Every Day Except Christmas* (1957) gan Lindsay Anderson o Archif Genedlaethol y BFI gyda thechnegau cynhyrchu rhithwir i ddod â hanes y man dinesig eiconig hwn yn fyw.

Dywedodd yr Athro James Bennett, Cyfarwyddwr StoryTrails, "Mae StoryTrails yn cyfleu hud a lledrith adrodd straeon ymgolli i ddod â straeon na adroddwyd o'r gorffennol yn fyw, gan ddefnyddio realiti estynedig a rhithwir i ail-greu manau cyhoeddus mewn trefi a dinasoedd ledled y DU, gan drawsnewid sgwariau trefi, llyfrgelloedd lleol a strydoedd yn byrth rhithwir ar gyfer archwilio straeon am newid hanesyddol. Mae rhaglen ddogfen David yn cyd-fynd â StoryTrails, gan ganolbwyntio ar straeon cudd a rhai na chlywyd o'r blaen am un o fannau cyhoeddus mwyaf adnabyddus Lloegr, Piazza Covent Garden, ac mae'n defnyddio technegau cynhyrchu rhithwir o'r radd flaenaf i ddod â gwahanol gyfnodau hanesyddol yn fyw".

Meddai Ben Luxford, Pennaeth Cynulleidfaoedd y DU yn y BFI: "Yn dilyn ei pherfformiad cyntaf llwyddiannus yng Ngŵyl Ffilm BFI Llundain fis diwethaf, rydym yn llawn cyffro y bydd cynulleidfaoedd ym mhob man nawr yn gallu mwynhau'r rhaglen ddogfen hynod ddiddorol hon ar BBC Two ac iPlayer. Mae *The People's Piazza* yn llythyr caru at un o fannau cyhoeddus mwyaf eiconig Lloegr, gan ddefnyddio llawer iawn o ddeunydd o gasgliadau Archif Genedlaethol y BFI i ddod â'i straeon a'i hanesion sydd wedi eu hanghofio yn fyw. Rydym mor falch ein bod wedi helpu cynulleidfaoedd ledled y DU i ailgysylltu â'u manau cyhoeddus drwy'r prosiect arloesol StoryTrails, ac mae wedi bod yn ysgogol ac yn werth chweil gwireddu'r uchelgais hon gyda David

Olusoga a thîm Uplands yn ogystal â'n partneriaid yn StoryFutures a'r BBC."

Ysgrifennodd David Olusoga, cyflwynydd a Chynhyrhydd Gweithredol y ffilm: "Mae Piazza Covent Garden yn lle sydd bob amser wedi fy nghyfareddu a diolch i gymorth ein partneriaid cynhyrchu rwy'n falch iawn ein bod o'r diwedd yn gallu dod â'i stori ryfeddol i'r sgrin. Rwy'n gobeithio y bydd y ffilm yn taro deuddeg gyda gwylwyr ac yn eu hysbrydoli i weld eu manau cyhoeddus eu hunain gyda llygaid newydd."

Gall cynulleidfaoedd ddarganfod drostynt eu hunain straeon lleol a hanesion cudd o 15 o drefi a dinasoedd ledled y DU, gan gynnwys Llundain drwy lwybrau a phrofiadau stori realiti estynedig drwy ap StoryTrails sydd am ddim. Crëwyd y profiadau digidol hyn drwy ddefnyddio archif ffilm a theledu o archifau'r BFI, BBC ac archifau cenedlaethol a rhanbarthol i gyflwyno ffenestr unigryw a hudolus i'r gorffennol.

Dywedodd Phil Batty, Cyfarwyddwr Gweithredol UNBOXED: Creadigrwydd yn y DU: "Mae StoryTrails yn daith hynod ddiddorol drwy rai o'r llefydd a'r bobl sy'n rhan o'r DU. Fel prosiectau eraill UNBOXED mae hyn o ganlyniad i gydweithrediadau creadigol newydd, sy'n cyfuno datblygiadau technolegol a'r celfyddydau i adrodd straeon mewn ffyrdd newydd gwfreiddiol. Mae hefyd wedi mynd at galon cymunedau, drwy wybodaeth leol a brwdfrydedd y 50 o bobl ifanc creadigol sydd wedi helpu i ddatblygu'r prosiect. Rwy'n gobeithio y bydd ffilm wych David yn ysbrydoli pobl i archwilio hanesion lawer sydd wedi'u datgelu yn y 15 o drefi a dinasoedd eraill ac sy'n ffurfio hanes newydd."

Mae ap Story-Trails ar gael i'w lawrlwytho am ddim o'r [App Store](#) a [Google Play](#). Mae'r ap yn cynnwys yr holl lwybrau stori realiti estynedig a phrofiadau o bob un o'r 15 o leoliadau y mae'r prosiect wedi ymweld â nhw dros yr haf, gan ddod â straeon lleol heb eu hadrodd yn fyw o wahanol gymunedau ledled y DU. Gall cynulleidfaoedd wneud eu llwybr lleol eu hunain ar strydoedd eu tref leol neu o gysur eu cartref.

Yn ogystal â hyn, mae StoryFutures Academy yn cyflwyno, mewn cydweithrediad â Uplands Television, *The People's Piazza: Behind The Scenes of a Virtual Production*. Mae'r gyfres bedair pennod hon yn archwilio sut y gwnaeth y cynhyrchiad helpu i ddod â deunydd archifol am Piazza enwog Covent Garden, ac mae ar gael ar [Academi StoryFutures](#) o 21 Tachwedd 2022.

Arweinir StoryTrails gan StoryFutures Academy, y ganolfan genedlaethol ar gyfer adrodd straeon ymgolli ac fe'i cyflwynir mewn partneriaeth â'r Sefydliad Ffilm Prydeinig (BFI), y darlledwr a'r gwneuthurwr ffilmiau, David Olusoga, y BBC, Uplands Television, ac arbenigwyr ymdrochi blaenllaw ISO Design a Nexus Studios. Mae'n defnyddio technoleg flaengar gan Niantic, gwneuthurwyr Pokémon Go, a'i gyflwyno yn fyw yn rhwydwaith cenedlaethol The Reading Agency o lyfrgelloedd a chan arbenigwyr digwyddiadau ProduceUK.

Mae UNBOXED: Creadigrwydd yn y DU yn cael ei ariannu a'i gefnogi gan bedair llywodraeth y DU ac fe'i comisiynwyd a'i gyflwyno mewn partneriaeth â Chyngor Dinas Belfast, Cymru Greadigol ac EventScotland.

www.bbc.co.uk/coventgarden

story-trails.com

Facebook ac Instagram @StoryTrailsProject. Twitter: @StoryFuturesA

-Diwedd-

Ymholiadau cyfryngau StoryTrails:

Truda Spruyt, Rheolwr Gyfarwyddwr, Four

storytrails@fourcommunications.com

07740 725206

Sara Parsons, Rheolwr Cyfryngau a Chysylltiadau Cyhoeddus ar gyfer StoryTrails yn Royal Holloway, Prifysgol Llundain

sara.parsons@royalholloway.ac.uk

07467 858672

UNBOXED: Creadigrwydd yn y DU, ymholiadau cyfryngau'r:

Jeanette Ward, Pennaeth Cysylltiadau â'r Cyfryngau, UNBOXED: Creadigrwydd yn y DU

Jeanette.ward@unboxed2022.uk

07729 930 812

Nodiadau i Olygyddion

Ynglŷn â StoryTrails

Mae StoryTrails yn brofiad storiol ymgolli unigryw, lle mae straeon heb eu hadrodd o'r gorffennol yn dod yn fyw trwy hud y rhyngwydd 3D gan ddefnyddio realiti estynedig a rhithwir i ail-animeiddio manau cyhoeddus mewn trefi a dinasoedd ledled y DU. Bydd cynulleidfaoedd yn teithio drwy amser drwy ryfeddod technolegau newydd i brofi hanesion lleol heb eu hadrodd yn y man lle y bu iddynt ddigwydd. Arweinir StoryTrails gan StoryFutures Academy sy'n cael ei redeg gan Royal Holloway, Prifysgol Llundain a'r Ysgol Ffilm a Theledu Genedlaethol (NFTS).

Mae StoryTrails yn un o 10 prosiect a gomisiynwyd ar gyfer [UNBOXED: Creadigrwydd yn y DU](#), dathliad arloesol o greadigrwydd ledled y DU yn 2022 a fydd yn dod â phobl at ei gilydd ac yn cyrraedd miliynau drwy osodweithiau ymgolli am ddim ar raddfa fawr a phrofiadau digidol hygrych byd-eang yn arddangosfa fwyaf uchelgeisiol y DU o gydweithio creadigol.

Penllanw StoryTrails fydd ffilm a gomisiynwyd yn arbennig gan David Olusoga a fydd yn cael ei dangos mewn sinemâu ledled y DU ac ar gael i gynulleidfaoedd ar BBC iPlayer.

Cyflwynir StoryTrails mewn partneriaeth â'r British Film Institute (BFI), y darlledwr a'r gwneuthurwr ffilmiau, David Olusoga, y BBC, Uplands Television, ac arbenigwyr ymgolli blaenllaw ISO Design a Nexus Studios. Bydd yn defnyddio technoleg flaengar gan Niantic, gwneuthurwyr Pokémon Go, a bydd yn cael ei gyflwyno yn rhwydwaith cenedlaethol The Reading Agency o lyfrgelloedd a chan arbenigwyr digwyddiadau ProduceUK.

story-trails.com

Ynglŷn ag Academi StoryFutures - storyfutures.com/academy

StoryFutures Academy yw canolfan genedlaethol adrodd straeon ymgolli y DU, a gynhelir gan Royal Holloway, Prifysgol Llundain a'r Ysgol Ffilm a Theledu Genedlaethol (NFTS). Mae'r academi, a ariennir gan Gyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau, sy'n rhan o Ymchwil ac Arloesedd y DU, yn datblygu rhaglenni hyfforddiant ac ymchwil creadigol blaengar, i sicrhau mai gweithlu creadigol y DU yw'r rhai mwyaf medrus yn y byd o ran defnyddio technoleg cynhyrchu rhithwir, estynedig a real ar gyfer adrodd straeon ymgolli.

Hyd yma, mae cyn-fyfyrwyr StoryFutures Academy Labs wedi cynnwys y cyfarwyddwr a enillodd Oscar a BAFTA, Asif Kapadia, Goruchwyliwr VFX sydd wedi ennill Oscar, Paul Franklin, a'r artist cysyniadol a enillodd Wobr Turner, Gillian Wearing OBE.

Gyda'n partneriaid, mae dros £1 miliwn wedi'i fuddsoddi mewn cynhyrchu ymgolli yn y DU, ar draws cyd-gynrychiadau gyda BBC3, a chyllid datblygu Booster a Kickstart. Y rhaglen ddogfen VR Documentary Common Ground arobryn oedd y cyd-gynhyrchiad cyntaf erioed, a berfformiwyd am y tro cyntaf yng Ngŵyl Ffilm Tribeca yn gynnar yn 2019. Cafodd Violence, cydweithrediad artistig rhwng y cyfarwyddwr ffilm Shola Amoo (The Last Tree) a'r cynhyrhydd Eleanor Whitley (Marshmallow Laser Feast), ei berfformiad cyntaf yn y byd yng Ngŵyl Ffilm Tribeca, fel rhan o XR Virtual yn Cannes yn Marché du film de Cannes, ym mis Mehefin 2020. Gwnaeth Laika, a gomisiynwyd gan StoryFutures Academy a'i chyfarwyddo gan Asif Kapadia sydd wedi ennill Oscar a Bafta, ei dangosiad cyntaf yn VR yng Ngŵyl Ffilm BFI Llundain 2021 fel rhan o'u rhaglen Expanded.

Gwybodaeth am Royal Holloway, Prifysgol Llundain – royalholloway.ac.uk

Mae Royal Holloway, Prifysgol Llundain, yn un o'r 25 o brifysgolion gorau yn y DU. Drwy ymchwil o'r radd flaenaf sy'n ehangu meddyliau ac yn newid bywydau, ymroddiad ein hathrawon a naws profiad y Royal Holloway, mae ein cymuned ni yn un sy'n ysbrydoli unigolion i lwyddo yn academiaidd, yn gymdeithasol ac yn bersonol.

Sefydlwyd y brifysgol gan ddau ddiwygiwr cymdeithasol a fu'n arloesi'r ddefnydd o addysg a gwybodaeth i bawb y gallent fod o fudd iddynt. Mae eu gweledigaeth yn parhau heddiw. Fel un o brifysgolion ymchwil-ddwys mwyaf blaenllaw'r DU rydym yn gartref i rai o awdurdodau mwyaf blaenllaw'r byd yn y gwyddorau, y celfyddydau, busnes, economeg a'r gyfraith. Cawn ein cryfhau gan amrywiaeth, ac rydym yn croesawu myfyrwyr ac academyddion sy'n teithio o bob cwr o'r byd i astudio a gweithio yma, gan sicrhau safbwynt rhyngwladol ac amlddiwylliannol ar gampws cyfeillgar a hanesyddol.

Ynglŷn ag UNBOXED: Creadigrwydd yn y DU - unboxed2022.uk

Mae [UNBOXED: creadigrwydd yn y DU](https://unboxed2022.uk) yn ddathliad o greadigrwydd sy'n cael ei gynnal ledled y DU yn 2022. Mae'n cynnwys digwyddiadau am ddim ar raddfa fawr, gosodweithiau, a phrofiadau digidol hygyrch yn fyd-eang yn arddangosfa fwyaf uchelgeisiol y DU o gydweithio creadigol. Wedi'i gynhyrchu gan rai o'r meddyliau mwyaf disglair ym meysydd gwyddoniaeth, technoleg, peirianeg, y celfyddydau a mathemateg, mae UNBOXED yn cynnwys deg prosiect creadigol aml-safle a digidol mawr sy'n rhannu syniadau a phosibiliadau newydd ar gyfer y dyfodol. Cynhelir digwyddiadau a gweithgareddau rhwng 1 Mawrth a 20 Tachwedd 2022 – o Ynysoedd Heledd i Southampton ac o Omagh i Abertawe, **ac ar draws** y cyfryngau traddodiadol ac ar-lein. Mae UNBOXED: Creadigrwydd yn y DU yn cael ei ariannu a'i gefnogi gan bedair llywodraeth y DU ac fe'i comisiynir a'i gyflwyno mewn partneriaeth â Chyngor Dinas Belfast, Cymru Greadigol, ac EventScotland.

Ynglŷn â BFI

Y BFI yw prif sefydliad y DU ar gyfer ffilm, teledu a'r ddelwedd symudol. Mae'n elusen ddiwylliannol sy'n:

- Curadu ac yn cyflwyno'r rhaglen gyhoeddus rhyngwladol fwyaf o Sinema'r Byd ar gyfer cynulleidfaoedd; mewn sinemâu, mewn gwyliau ac ar-lein
- Gofalu am archif genedlaethol y BFI – yr archif ffilm a theledu mwyaf arwyddocaol yn y byd
- Mynd ati i chwilio am waith a chefnogi'r genhedlaeth nesaf o wneuthurwyr ffilmiau
- Yn gweithio gyda'r Llywodraeth a diwydiant i wneud y DU y lle mwyaf cyffrous a ffyniannus yn greadigol i wneud ffilm yn rhyngwladol

Wedi'i sefydlu ym 1933, mae'r BFI yn elusen gofrestredig a lywodraethir gan Siarter Frenhinol. Cadeirydd Bwrdd Llywodraethwyr BFI yw Tim Richards.

StoryFutures Academy is a partnership with

NFTS

NATIONAL
FILM AND
TELEVISION
SCHOOL

UKRI

Arts and
Humanities
Research Council



**INDUSTRIAL
STRATEGY**



StoryTrails is delivered by StoryFutures Academy, in partnership with



**THE
READING
AGENCY**

produce



UPLANDS
television

BBC Studios



nexus studios



NIANTIC

StoryTrails is commissioned by UNBOXED which is funded by



UNBOXED is delivered in partnership with

